

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Strategaeth **Tlodi Plant**



CODI YMWYBYDDIAETH - LLIEHAU PERYGL

Cynnwys

1.	Rhagarweiniad	4
2.	Canlyniadau/Camau/Mesurau	6
2.1	Nod Craidd 1	6
2.2	Nod Craidd 2	7
2.3	Nod Craidd 3	8
2.4	Nod Craidd 4	9
2.5	Nod Craidd 5	9
2.6	Nod Craidd 6	10
2.7	Nod Craidd 7	10
3.	Ffrâm Amser	12
4.	Trefn Lywodraethol	12





1. Rhagarweiniad

Mae Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith strategol i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant a ddatblygwyd o'r Mesur yn adnabod tri prif amcan strategol :

1. Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn teuluoedd diwaith.
2. Gwella lefel sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel fel bod modd iddynt sicrhau cyflogaeth ag iddi dâl da.
3. Lleihau yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg a'r economi i blant sy'n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau y mwyaf tlawd.


Ym maes y trydydd amcan strategol y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi'i leoli orau ar gyfer cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Yn unol ag amcan pwysica'r sefydliad i warchod a chefnogi'r cymunedau y gwasnaethwn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn adnabod pwysigrwydd ymyrraethau a dargedwyd i dorri'r cylch o dlodi sy'n pontio'r cenedlaethau a gwella canlyniadau i bobl ifanc o safbwynt iechyd ac addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn adnabod bod awdurdodau cyhoeddus yn chwarae rôl bwysig wrth leihau tlodi ymysg plant ac maent yn enwi'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn benodol fel un o'r cyrff cyhoeddus cyfrannol o fewn Adran 6 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdodau Cymreig a enwyd i gynhyrchu strategaeth tlodi plant ac i arddangos sut y bwriadent wella cyfleon bywyd i blant a phobl ifanc sy'n profi tlodi ac amddifadedd. Mae'r Mesur yn nodi 13 o nodau eang sy'n adlewyrchu yn ôl i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Mesur yn pennu bod gan yr awdurdodau cyhoeddus a enwyd ymrwymiad i weithredu yn ôl un neu ragor o'r 13 nod eang. Y rhai a osodir isod yw'r rhai y gall Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gyfathrebu â hwy fwyaf effeithiol:

- Nod Eang 6: I gefnogi rhianta plant
- Nod Eang 9: Sicrhau bod pob plentyn yn tyfu o fewn cymunedau diogel a chydlynus
- Nod Eang 13: I gynorthwyo pobl ifanc i ymroi yn effeithiol a chyfrifol i fywyd yn eu cymunedau

Yn ogystal â'r 13 nod eang a soniwyd amdanynt uchod, gosododd Llywodraeth Cymru Saith Nod Craidd sy'n crynhoi Erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dyma'r cyd-destun y datblygodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tlodi Plant, ac felly mae'r Nodau Craidd hyn, neu o leiaf echdynnau ohonynt sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yn ffurfio sail ein strategaeth ni. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau y byddwn yn dymuno, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn chwilio i gyfathrebu â nifer o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPI) sy'n gweithredu o fewn Awdurdodau Lleol De Cymru.

Caiff y teimladau o fewn y ddogfen hon eu hysbysu gan strategaethau sefydliadol cyfredol sy'n cyflwyno ymrwymiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i'r agenda amrywiaeth a gostyngiad anghydraddoldebau a achosir gan brofiad o dlodi ac amddifadedd. Mae hyn yn unol â'n gweledigaeth sefydliadol o wneud cymunedau y llofnod mwyaf diogel i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw ; yn adleisio ein gwerthoedd craidd o Wasanaeth i'r Gymuned.



Tra fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn hapus i gefnogi yr holl nodau eang a gyflwynir yn y Canllawiau a Rheoliadau ar gyfer Awdurdodau Cymreig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae yna un amheuaeth bwysig y mae'n rhaid i ni gydnabod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub yn teimlo'r rhedidrwydd i ddatgan y gred y dylai unrhyw Strategaeth Lleihau Tlodi Plant gynnwys ymrwymiad i leihau nifer y tanau damweiniol mewn anheddau a marwolaethau ac anafiadau a achosir gan danau. Yng ngoleuni'r ffaith bod y mwyafrif llethol o danau a deliwn â hwy yn digwydd mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, fel sefydliad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn teimlo ei bod yn gwbl briodol i roi cadw plant a phobl ifanc mewn cartrefi sy'n ddiogel rhag tân fel blaenoriaeth yn y ddogfen Strategaeth hon. Mae ystadegau gan elusen Achub y Plant yn dangos bod plant o deuluoedd incwm isel 15 gwaith mwy tebyg o farw mewn tân yn eu cartref a 37 gwaith mwy tebyg o farw adref os ydi eu rhieni yn ddiwaith am dymor hir neu os nad buont yn gweithio erioed. Mae ein hystadegau yn dangos cydberthyniad union bron â bod rhwng nifer ac amledd tanau ac amgylchiadau gymdeithasol-economaidd yr ardal a effeithir: yr ardaloedd sy'n dioddef y nifer fwyaf o danau yw'r ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd fwyaf.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio dangos sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn bwriadu cyfrannu tuag at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n profi tlodi ac amddifadedd. Bydd y strategaeth yn cynnwys ymgynghoriadau â'n sefydliadau partneriaethol statudol yn y PPPI i edrych ar ddatblygiad gwasanaethau newydd o fewn ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf (CG), yn ogystal ag edrych ar ein rhaglenni cyfredol er mwyn adnabod ffyrdd mwy creadigol o ddarparu. Fe fydd yn gosod ein bwriad a'n camau gweithredu ar draws holl ardaloedd perthnasol ein hymrwymiad cyfredol ac yn dynodi'r nodau eang hynny sy'n cyd-daro â ffocws ein pryderon mewn perthynas â'r CCUHP. Mae nodau eang eraill y medr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru eu cefnogi'n ymylol, fel cynorthwyo pobl ifanc i gyfranogi yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant, ac felly'n gwella canlyniadau o ran iechyd ac addysg a thorri cylch tlodi.

Dylid hefyd cydnabod nad yn unig mewn ardaloedd CG y lleolir teuluoedd incwm isel, a bod pob teulu o ardaloedd CG ddim o reidrwydd yn deulu incwm isel. Mae ymchwil yn dangos mai ond 40% o deuluoedd incwm isel a ddarganfyddir mewn ardaloedd CG. Yng ngoleuni'r ymchwil hwn, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn archwilio dulliau ychwanegol i dargedu teuluoedd incwm isel: e.e. drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu gonsortia Teuluoedd yn Gyntaf.



2. Canlyniadau/Camau/Mesurau

Mae'r bennod hon yn gosod ein hymateb i Nodau Craidd CCUHP.

Mewn partneriaeth ag asiantaethau rhag-gymdeithasol sydd ynghlwm â'r PPPI hynny yr ydym yn cefnogi'n weithredol, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn edrych am gyfle i addasu ychydig o'n rhaglenni cyfredol i gwrdd â gofynion rhai o'n teuluoedd mwyaf archolladwy ar draws De Cymru. Mae hi hefyd yn wir y byddwn yn archwilio mentrau ychwanegol y medrwn rhoi ar waith i gefnogi taclo tlodi ymysg plant sy'n hanfodol. Wrth gymryd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel man cychwyn, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gosod y Canlyniadau, Camau a'r Mesurau y medrwn eu cyflawni mewn cefnogaeth o'r Nodau Craidd, a rhoi mewn lle naratif ar gyfer y canlyniadau fydd yn ffurfio sylfaen yr Adolygiad yn 2014

2.1 NOD CRAIDD 1: Dylai pob plentyn gael cychwyn ar garlam mewn bywyd.

Mae'r nod hwn yn ceisio sicrhau y caiff pob plentyn ei eni yn iach o fewn teulu diogel a chefnogol. Mae'n cyd-daro ag ymrwymiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i gefnogi rhianta plant a sicrhau y bydd pob plentyn yn tyfu mewn tai sy'n ddiogel rhag tân.

Canlyniadau GTADC a gynlluniwyd:

Bydd yn ymdrechu i wella amodau diogelwch tân o fewn tai teuluoedd sydd mewn perygl arbennig drwy gyflawni archwiliadau diogelwch tân yn y cartref (ADTC) a darpariaeth dyfeisiadau synhwyro ac atal tân. Yn ogystal, byddwn yn cyfathrebu â rhieni plant bach, o'u hadnabod gan asiantaethau ein partneriaid, i wella'u ymwybyddiaeth diogelwch, yn benodol drwy ein Ymgyrch Ymyrraeth 'Firesetter'.

Camau

Byddwn:

Yn adnabod tai sydd mewn perygl arbennig drwy ddefnydd meddalwedd gwybodaeth gymdeithasol-ddaearyddol (Mosaic) a chyfarwyddo archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref i'r rhai hynny; mewn partneriaeth â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd i gyfarwyddo ADTC i dai plant mewn ardaloedd CG.

Byddwn:

Yn trefnu cyflwyniadau i grwpiau targed o rieni ifanc er mwyn cyfeirio'n uniongyrchol â nhw am faterion sy'n perthyn i ddiogelwch rhag tân yn y cartref, gan ddefnyddio asiantaethau partneriaethol fel Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg sy'n gweithredu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Mesurau:

Bwriadwn osod larymau mwg mewn 1000 o dai ar gyfer teuluoedd incwm isel a adnabyddwyd gan ein methodoleg targedu mewn ymgynghoriad â Chymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf o fewn dwy flynedd y Strategaeth cyn bod adolygiad.

Byddwn yn cynnig cyflwyniad i bob grŵp Mamau Ifanc Cychwyn Cadarn o fewn dwy flynedd y Strategaeth cyn bod adolygiad.

O fewn De Cymru, bydd plant cyn ysgol yn dioddef 5% yn llai o anafiadau sy'n berthynol i danau yn ystod 2012 - 2014 nag yn ystod y ddwy flynedd sy'n rhagflaenu cyflawniad y strategaeth.



2.2 NOD CRAIDD 2: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad i ystod cynhwysfawr o gyfleoedd addysgol, hyfforddiannol a dysgiadol, gan gynwys caffaeliad sgiliau hanfodol personol a chymdeithasol.

Mae'r nod hwn mewn cytgordd ag ymdrechion Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i gynorthwyo pobl ifanc gyfranogi'n effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Canlyniadau GTADC a gynlluniwyd:

I ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu sy'n briodol i oedran a gallu i blant a phobl ifanc mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd nad sy'n gyforiog o gyfleoedd.

Bydd hyn yn darparu ffynhonnell gyfoethogi cymunedol ac yn maethu perthynas dda rhwng yr Orsaf Ddan Leol a'r gymuned a wasanaetha. Tystiolaethir hyn gan leihad mewn amledd a dwysder ymosodiadau ar griwiau Tân.

Camau

Byddwn:

Yn CA1, byddwn yn darparu cwricwlwm sbiral i Flwyddyn 2; yn CA2, Blwyddyn 5; ac atgyfnerthiad ym Mlwyddyn 6. Ar gyfer Blwyddyn 4, byddwn yn cynnig Ysgol Goedwig i ddwy ysgol bob blwyddyn a ddewisir yn ôl cyffredinrwydd tanau gwyllt yn eu hardal, (mae ystadegau yn dangos ei fod yn fwy tebygol o ddigwydd yn ardaloedd mwyaf amddifad De Cymru) Caiff y cyrsiau hyn eu darparu yn uniongyrchol gan bersonél y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn cysoni yn union â nod y Parciau Cenedlaethol i hyrwyddo defnydd cyfrifol o gefn gwlad.

Byddwn:

Yn CA3 a CA4, byddwn yn darparu deunyddiau dysgu i athrawon ysgolion uwchradd i archwilio themau Addysg Bersonol, Gymdeithasol a Iechyd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, e.e. Pwysau gan gyfoedion a bwlio a'u heffaith ar gynnu tân a galwadau ffug maleisus.

Byddwn:

Yn darparu cyfleoedd i 200 o bobl ifanc bob blwyddyn i ymgysylltu â'r ymgyrch Ymladdwr Tân ifanc, yn hyrwyddo sgiliau meddal a chymdeithasol, yn arwain at wobwr Tystysgrif BTEC. Bydd hyn yn annog mynediad i Addysg Pellach ac Uwch, a thrwy hynny yn newid canlyniadau economaidd gwan er gwell.

Yn ogystal, yr ydym yn cynnig rhaglenni wedi'u targedu i bobl ifanc Haen 1 a Haen 2 a gyfeiriwyd drwy'r system cyfiawnder ieuencid, nifer ohonynt sydd â chefnidir o amddifadedd economaidd.

Byddwn:

Yn darparu 270 lle y flwyddyn i bobl ifanc ar raglen Ffenics, sydd wedi'u hanelu at hyrwyddo ymddygiad rhag-gymdeithasol a gwella hunanwerth.

Byddwn:

Yn darparu 2000 o lefydd y flwyddyn i bobl ifanc sy'n ymgysylltu â Throsedd a Chanlyniadau, pecyn hyfforddi modiwlwr sy'n hyrwyddo sgiliau meddwl canlyniadol a chyfrifoldeb cymdeithasol ynghylch materion trosedd tân.



Byddwn:

Yn darparu 300 awr o addysg i bobl ifanc nad sy'n ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant bob blwyddyn ar faterion sy'n ymwneud â Diogelwch Tân a Diogelwch ar y Ffyrdd.

Mesurau:

Lleihad mewn Trosedd Tân a gyflawnwyd gan bobl ifanc, tystiolaethir gan ostyngiad o 5% mewn cynnau tanau yn fwriadol; galwadau ffug maleisus; a gostyngiad o 10% mewn ymosodiadau ar griwiau Tân mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

2.3 NOD CRAIDD 3: Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau yr iechyd gorau posib, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth a chamfanteisio.

Adlewyrchir y nod hwn yng ngwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub i hyrwyddo diogelwch tân yn y cartref a gwarchod plant archolladwy yn weithredol.

Canlyniadau:

Bydd GTADC yn hyrwyddo'n weithredol protocolau a gweithdrefnau i warchod plant a ymddengys eu bod mewn perygl camdriniaeth neu gamfantais a'u cadw'n ddiogel o fewn eu cartrefi.

Camau

Byddwn:

Yn rhoi ar waith protocolau a gweithdrefnau clir i alluogi yr holl bersonél a gyflogir gan GTADC i fynegi unrhyw bryderon ynghylch lles plant a ddaw i'w rhan tra'n cyflawni eu gwaith.

Byddwn:

Yn sicrhau bod Tîm Diogelu effeithiol ar waith o fewn GTADC fydd yn ymgymryd â sicrhau y mynegir unrhyw bryderon o'r fath i'r awdurdodau priodol.

Byddwn:

Yn targedu cartrefi pobl ifanc sy'n dioddef amddifadedd economaidd i gyflawni Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gosod synhwyriad ac amddiffyniad priodol i leihau'r risg i blant o niwed neu farwolaeth o achos tân, gan gynnwys darpariaeth deunyddiau gwrth-fflamychol i leihau'r perygl rhag tanau sy'n berthynol i ysmegu.

Mesur:

Caiff pob achos o bryder a fynegwyd i Dîm Diogelu GTADC ynghylch lles plant unigol eu cyfeirio at yr awdurdodau priodol.

Caiff pob teulu sy'n dioddef amddifadedd economaidd gynnig ymweliad gan GTADC a fydd yn cynnig Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ac yn darparu cyngor a deunyddiau diogelwch tân priodol.



2.4 NOD CRAIDD 4: Dylai fod gan blant a phobl ifanc fynediad i a chyfleoedd i gyfranogi mewn chwarae, chwaraeon, gweithgareddau hamdden a diwylliannol diogel ac o ansawdd uchel.

Mae'r nod hwn yn gyseiniol ag ymdrechion GTADC i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogî'n effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Canlyniadau:

Bydd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddewislen o weithgareddau mewn grym fydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol uchel eu safon.

Camau

Byddwn:

Yn cynnig ystod o weithgareddau dargyfeiriol pob Gwanwyn i ymgysylltu â phobl ifanc rhwng oeddrannau 11 a 18 o ardaloedd o amddifadedd economaidd (Bernie)

Byddwn:

Yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gyfathrebu ag Ymgyrch Ymladdwr Tân ifanc sy'n arwain at wobwr â thystysgrif BTEC

Mesur:

Gyda chefnogaeth ein partneriaid yn yr Awdurdodau Lleol dynodedig, bydd GTADC yn cyflwyno rhaglen Bernie i 800 o bobl ifanc yn y ddwy flynedd sy'n arwain at yr adolygiad yn 2014.

Diogelir Gwobrau BTEC gan 150 o bobl ifanc erbyn 2014.

2.5 NOD CRAIDD 5: Caiff pob plentyn a pherson ifanc wrandawriad, a'i drin â pharch a bydd â'r gallu i gael cydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.

Canlyniadau:

Bydd gan GTADC ystod estynedig o gyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn grym i gyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau o fewn cyd-destun parch tuag at egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Camau

Byddwn:

Yn Cynnal 'Gwylio am Dân' o fewn ysgolion a adnabyddwyd gan MOSAIC

Yn Cynnal rhaglenni Ymladdwyr Tân Ifanc mewn gorsafoedd sy'n gwasanaethu rhai o'r cymunedau mwyaf amddifad, yn anwesu pobl ifanc o bob cefndir ethnig.


Yn gweithredu Ffenics i 200 o bobl ifanc archolladwy pob blwyddyn

Yn gweithredu Ymgyrch Mentora Llythrennedd mewn gorsafoedd tân o fewn ein hardaloedd CG mwyaf amddifad yn economaidd, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Llyfrgell a'r CG / Gwasanaethau Cymdeithasol

Mesur:

Bydd 40 ysgol yn gweithredu ymgyrch 'Gwylio am Dân' erbyn bydd yr adolygiad yn digwydd yn 2014

Bydd 150 o Ymladdwyr Tân Ifanc wedi sicrhau gwobr BTEC



Bydd 400 o bobl ifanc wedi cyfranogi yn rhaglen Ffenics.
Bydd ymgyrchoedd mentora llythrennedd mewn grym ym Maesteg, Merthyr Tudful, Caerffili a Thonypandy.

2.6 NOD CRAIDD 6: Dylai pob plentyn a pherson ifanc allu bod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain a'r gymuned lle maent yn byw.

Canlyniad:

Bydd gan GTADC brotocolau rhagweithiol mewn lle sy'n targedu oedolion sydd â phroblemau gyda chamddefnydd sylweddau ac yn eithafu ymwybyddiaeth diogelwch rhag tân a rhagofalon tân yn y cartref.

Bydd GTADC wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr a anelir at ddyrchafu diogelwch ar y ffyrdd a lleihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a ddarperir ym mhob ysgol uwchradd yn Ne Cymru, gan gynnwys y rhai hynny sydd o fewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

Sefydlir protocolau a gweithdrefnau i gyfeirio materion sy'n berthynol i drosedd casineb a cham-drin domestig i'r awdurdodau perthnasol.

Camau:

Bydd Eiriolwyr fydd â'r dasg benodol o ymweld â chartrefi oedolion sydd ynghlwm â cham-drin sylweddau yn darparu'r gefnogaeth fwyaf yn nhermau diogelwch rhag tân i'r sawl sydd â phlant.

Cyflwynir Rhaglenni Domino yn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd i bob Ysgol Uwchradd fel rhan o'r Cwricwlwm ABGI

Mesur:

Bydd Eiriolwr Cam-driniaeth Cyffuriau ac Alcohol wedi cyflawni Archwiliad Diogelwch rhag Tân yn y Cartref i 600 o dai pobl sydd ynghlwm â cham-drin sylweddau.

Darperir Rhaglen Ddiogelwch ar y Ffyrdd i bob Ysgol Uwchradd ar draws y Deg Awdurdod.

2.7 NOD CRAIDD 7: Ni ddylai tlodi atal plant a phobl ifanc rhag byw bywyd llawn, yn cyflawni ac yn llwyddo.

Canlyniadau:

Bydd gan GTADC raglenni mewn lle sy'n annog oedolion mewn teuluoedd diwaith i gyfathrebu â dysgu gyda'u plant a mabwsiadu mesurau priodol er mwyn sicrhau diogelwch tân yn y cartref, yn ogystal â darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc o gefndiroedd o amddifadedd cymdeithasol fwynhau profiadau dysgu ac ennill cymwysterau.

Camau:

Mae'r holl weithgareddau a ddarperir gan GTADC yn agored i bob plentyn a pherson ifanc, ac yn hyrwyddo gwell hunanhyder, hunanbarch a hunanddibyniaeth; yn annog cyflawniad addysgol a sicrhau bod pob teulu yn meddiannu tai sydd wedi'u gwarchod yn ddigonol rhag tân.

**Mesur:**

Yn y ddwy flynedd sy'n arwain at yr adolygiad, bydd GTADC:

- Wedi gosod larymau mwg a darparu cyngor diogelwch rhag tân i 20,000 o dai mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd a chymdeithasol
- Wedi darparu cyfleoedd dysgu yn hyrwyddo Diogelwch rhag Tân yn y Cartref i blant ym mhob Ysgol Gynradd yn Ne Cymru
- Wedi darparu mynediad i raglenni dysgu a gweithgareddau dargyfeiriol i blant a phobl ifanc yn Ne Cymru ar draws holl Gyfnodau Allweddol y Cwricwlwm Cymraeg
- Wedi darparu cyflwyniadau yn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd i holl Ysgolion Uwchradd De Cymru
- Wedi darparu cyflwyniadau yn hyrwyddo Diogelwch Tân yn y Cartref i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET); i bobl sy'n delio â materion camddefnydd sylweddau; i ofalwyr plant ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal ar draws De Cymru.

3. Ffrâm Amser

	Cam	Erbyn pryd
1	Drafft Cyntaf wedi'i gwblhau	Hydref 2011
2	Cyflwyno'r Drafft i UDR	Tachwedd 8fed 2011
3	Cyflwyno i'r Awdurdod Tân	Rhagfyr 19eg 2011
4	Cyfnod Ymgynghori	Ion hyd Mawrth 2012
5	Gweithrediad	Ebrill 1af 2012 hyd Mawrth 31ain 2014
6	Adolygiad	Ebrill 2014

4. Trefn Lywodraethol

Mae'r ddogfen strategol hon yn gosod y ffyrdd y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn arddangos ei ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant. Er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu ei ymrwymiad ac yn cyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc, mae'n rhaid sefydlu ambell ffactor rheolaethol.

Bydd rhain yn cynnwys:

Trefn Lywodraethol – sefydlu Awdurdod Tân De Cymru fel corff arweiniol o safbwynt darparu'r strategaeth.

Cefnogaeth Cyfranddalwyr – cysoni'r strategaeth hon gyda'r rhai sy'n perthyn i'n cyfeillion allweddol fel y PPPI.

Gwerthusiad – datblygu a monitro mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau a rhaglenni allweddol sy'n darparu ffenestr dryloyw i lwyddiant.

Cyfranogiad – ymrwymiad uniongyrchol a phenodol â plant a phobl ifanc yn nhermau beth a sut yw natur ein hymrwymiad â hwy.

Cronicladd – creu mecanwaith adrodd sy'n diwallu anghenion pob grŵp pennawd yn y bennod hon.

Yn benodol:

- I'r Awdurdod Tân drwy'r Dirprwy Brif Swyddog Tân
- I'r Cyfranddalwyr drwy ein hymrwymiad â'r PPPI
- I'r plant a'r bobl ifanc drwy grwpiau ffocws sy'n bodoli eisioes o fewn PPPI a thrwy grwpiau ad hoc yn mynychu ystod o weithgareddau a drefnwyd gan y Gwasanaeth Tân
- I staff GTADC drwy grŵp cysylltiadau
- I Uned Tlodi Plant Llywodraeth Cymru



www.decymru-tan.gov.uk

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



SWFireandRescue